sports council wales
cyngor chwaraeon cymru

Diweddariad Chwaraeon

Rhif 60 Ionawr 2007

Y Ddarpariaeth AG mewn Ysgolion Cynradd

Supported by
The National Lottery®
Cefnogwyd gan
Y Loteri Genedlaethol

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

Her Iechyd Cymru
Health Challenge Wales

sports council wales
cyngor chwaraeon cymru

Pris: £3.00, Ionawr 2007
Yr Adran Ymchwil a Gwerthuso
Cyngor Chwaraeon Cymru
Gerddi Sophia, Caerdydd CF11 9SW

Ffôn: 0845 045 0904
Ffacs: 029 2030 0600
e-bost: scw@scw.co.uk
www.cyngor-chwaraeon-cymru.org.uk

© Cyngor Chwaraeon Cymru 2007

CYNNWYS

CRYNODEB GWEITHREDOL 4

CEFNDIR 5

DULL 5

AG GWRICWLAIDD AC ADNODDAU 6

Staff 6

Hyfforddiant 6

Cyllid 7

Arian ychwanegol a godwyd ar gyfer gwariant AG 7

Cyfleusterau 8

Graddio'r cyfleusterau 9

AG GWRICWLAIDD: CYFLWYNO 10

Amser 10

Y gweithgareddau a gynigir 10

Ymarfer cysylltiedig ag iechyd 10

CHWARAEON ALLGYRSIOL 12

Staff 12

Amser 12

Campau'r Ddraig a gweithgarwch allgyrsiol 14

Timau Ysgol 16

SYLWADAU I GLOI 16

CYDNABYDDIAETH 16

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darganfyddiadau'r pedwerydd astudiaeth gan Gyngor Chwaraeon Cymru (CChC) o addysg gorfforol (AG) mewn ysgolion cynradd ledled Cymru, yn seiliedig ar y ddarpariaeth yng Nghyfnod Allweddol 2 (CA2) yn ystod blwyddyn academaidd 2004/05.

Ymhlith y materion sy'n cael sylw yn yr adroddiad hwn mae'r adnoddau a'r ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer AG gwricwlaidd, y gweithgareddau a gynigir fel rhan o'r cwricwlwm, argaeledd a safon y cyfleusterau chwaraeon mewn ysgolion a'r adnoddau a'r dull o gyflwyno'r ddarpariaeth AG allgyrsiol. Casglwyd gwybodaeth am y rhain ac am faterion eraill drwy gyfrwng dau arolwg ar wahân; un ar gydlynwyr AG y cwricwlwm a'r llall ar athrawon yn yr ysgolion cysylltiedig.

Nid oes gan 26% o'r ysgolion cynradd athrawon gwrywaidd yn ymwneud â chyflwyno AG. Ceir cyfartaledd o 1.01 o arbenigwyr AG ym mhob ysgol gynradd ledled Cymru, er bod 36% o'r Cydlynwyr AG wedi dynodi nad oedd gan eu hysgol arbenigwr AG. Roedd 48% o'r Cydlynwyr AG yn eu hystyried eu hunain fel arbenigwyr.

Yn gyffredinol, roedd 40% o'r athrawon wedi cymryd rhan mewn Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn ystod blwyddyn academaidd 2004/05. Mynegodd 65% o'r Cydlynwyr eu bod yn cytuno i'w staff dderbyn DPP er mwyn sicrhau bod AG yn cael ei chyflwyno'n effeithiol.

Roedd 40% o'r ysgolion cynradd wedi codi arian ychwanegol drwy gyfrwng gweithgareddau codi arian ar gyfer gwario ar AG.

Cafwyd rhyw faint o ostyngiad yng nghanran yr ysgolion cynradd gyda chyfleusterau ar y safle, fel campfa, cyfleusterau newid a chaeau pêl droed, a phitiau athletau a chaeau rygbi oddi ar y safle. Yn gyffredinol, mae'r cyfleusterau ar y safle'n cael eu hystyried fel rhai 'gweddol' neu 'dda' tra bo'r cyfleusterau oddi ar y safle'n cael eu hystyried fel rhai 'da' neu 'ragorol'. Dywedodd 42% bod y cyfleusterau a oedd ar gael yn gyffredinol yn 'dda'.

Mae'r amser sydd ar gael ar gyfer AG gwricwlaidd i'r holl grwpiau blwyddyn wedi cynyddu ers arolwg 2002/03 (91 munud yr wythnos) gyda chyfartaledd o 93 munud yr wythnos yn cael ei roi i bob grŵp blwyddyn. Mae'r amser a neilltuir yn parhau'n gymharol gyson ym mhob grŵp blwyddyn rhwng blynyddoedd 3 a 6, yn wahanol i'r gostyngiadau a welir yn yr amser wrth i ddisgyblion symud i fyny drwy'r ysgol uwchradd.

Ar gyfartaledd, cynigir 11.49 o weithgareddau mewn ysgolion cynradd yng Nghymru. Cynigir ychydig mwy o weithgareddau i enethod (11.21) ledled Cymru o gymharu â'r bechgyn (10.84).

Dysgir Ymarfer Cysylltiedig ag Iechyd ym mhob maes gweithgarwch gan 54% o'r ysgolion tra bo 46% o'r ysgolion yn ei ddysgu fel rhan o addysg bersonol a chymdeithasol (ABaCh).

Roedd 93% o'r ysgolion yn cynnig gweithgareddau AG allgyrsiol i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2, gyda chyfartaledd o 1.10 o staff gwrywaidd a 1.93 o staff benywaidd yn ymwneud â'u cyflwyno. Mae cyfraniad cynyddol gan staff allanol, fel Cydlynwyr Campau'r Ddraig, Hyfforddwyr Clybiau, Gwirfoddolwyr 18 oed a hŷn ac Athrawon Ysgolion Uwchradd, yn cyfrannu at y ddarpariaeth hon hefyd.

Mae ysgolion yn rhoi cyfartaledd o 218 munud o amser y staff yr wythnos i chwaraeon allgyrsiol o gymharu â'r 204 munud a gofnodwyd yn 2002/03 a 170 yn arolwg 2000/01. Darperir mwyafrif yr amser allgyrsiol ar ôl ysgol ac ar benwythnosau. Dywedodd mwy na hanner y Cydlynwyr AG y byddai eu hysgol yn hoffi cynnig mwy o weithgareddau allgyrsiol ond nad oes ganddynt staff wedi'u hyfforddi'n briodol ar hyn o bryd.



CEFNDIR

Gwnaed gwaith maes ar gyfer yr arolwg hwn mewn ysgolion cynradd bedair blynedd wedi datblygiadau sylweddol mewn AG ar gyfer ysgolion ledled Cymru. Lansiwyd menter Campau'r Ddraig yn y flwyddyn 2000 a'i diben yw cynnig i blant 7 i 11 gyfleoedd chwaraeon priodol. Mae'r fenter wedi bwrw gwreiddiau gyda 86% o'r holl ysgolion a ymatebodd yn rhedeg cynllun Campau'r Ddraig ar hyn o bryd. Hybir a chyflwynir Campau'r Ddraig drwy gyfrwng rhwydwaith o Gydlynwyr Campau'r Ddraig llawn amser ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae Campau'r Ddraig yn cyflwyno plant i hyfforddiant chwaraeon, datblygiad sgiliau a chystadlaethau priodol gan ddefnyddio fersiynau o gemau i oedolion wedi'u haddasu i fod yn briodol i anghenion a lefel sgiliau plant. Targedir saith camp ar gyfer y diben hwn, sef athletau, criced, pêl droed, hoci, pêl rwyd, rygbi a thenis. Cafwyd datblygiad pellach drwy gynnwys golff yn rhan o Gampau'r Ddraig ac felly rhagwelir y bydd cynnydd pellach yn y ddarpariaeth o'r gamp hon mewn arolygon ar y ddarpariaeth AG yn y dyfodol.

Hefyd, mae CChC wedi dod yn gyfrifol am reoli a gweithredu'r Cynllun Gweithredu AG a Chwaraeon Ysgol (AGChY) yn genedlaethol ar gyfer Cymru ac mae'r cyfnod peilot o dair blynedd wedi dod i ben yn awr (wedi dechrau fis Ebrill 2003). Mae'r rhaglen yn gwbl weithredol bellach gyda 46 o Ganolfannau Datblygu wedi'u sefydlu ledled Cymru. Fel rheol, bydd clwstwr Canolfan Ddatblygu'n cynnwys o leiaf un ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo. Hefyd, byddai'r partneriaethau yn y clwstwr yn cynnwys asiantaethau priodol eraill fel sefydliadau AB ac AU, canolfannau hamdden a sefydliadau anghenion addysgol arbennig.

DULL

Cynhaliwyd yr arolwg hwn (fel y ddau flaenorol) ar sail holiaduron hunangwblhau a anfonwyd at Gydlynwyr AG mewn sampl o ysgolion cynradd yn ystod mis Mehefin 2005. Roedd y gwaith o gasglu data'n canolbwyntio ar flwyddyn academaidd 2004/2005.

Anfonwyd yr holiadur at Gydlynwyr AG mewn 971 o ysgolion cynradd ledled Cymru. O blith y rhain, roedd 298 yn rhan o ganolfannau datblygu. Yn gyffredinol, derbyniwyd 482 o holiaduron wedi'u cwblhau, gan sicrhau cyfradd ymateb o 50%, gyda 187 o ysgolion y canolfannau datblygu wedi dychwelyd eu holiaduron.

Cafwyd cyfradd ymateb foddhaol yn y pedwar rhanbarth y cyfeirir atynt yn draddodiadol gan CChC fel: Y Gymru Fetropolitan, y Gogledd Gwledig, y Berfeddwlad Wledig a'r Cymoedd. Yr awdurdodau lleol sy'n rhan o'r rhanbarthau hyn yw:

Y Gymru Fetropolitan:
Wrecsam; Sir y Fflint; Casnewydd; Caerdydd;
Bro Morgannwg; Pen-y-bont ar Ogwr; Abertawe

Y Gogledd Gwledig:
Ynys Môn; Conwy; Sir Ddinbych; Gwynedd

Y Berfeddwlad Wledig:
Powys; Ceredigion; Sir Benfro; Sir Gaerfyrddin;
Sir Fynwy

Y Cymoedd:
Castell-nedd Port Talbot; Rhondda Cynon Taf; Caerffili;
Torfaen; Merthyr Tudful; Blaenau Gwent

AG GWRICWLAIDD AC ADNODDAU

Staff

Y nifer o athrawon a oedd yn ymwneud â dysgu AG y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfartaledd oedd 5.58 ac o blith y rhain roedd 1.33 yn ddynion a 4.25 yn ferched (Tabl 1). Nid oedd gan 26% o'r ysgolion unrhyw athrawon gwrywaidd ymhlith y staff yn dysgu AG ac nid oedd gan 3% unrhyw athrawon benywaidd yn gwneud hynny.

Roedd y cynorthwywyr dysgu'n ymwneud â chyflwyno AG hefyd, gyda chyfartaledd o 1.28, gyda 0.09 yn gynorthwywyr dysgu gwrywaidd a 1.20 yn gynorthwywyr dysgu benywaidd. Mae nifer y cynorthwywyr dysgu yn gyffredinol yn parhau i ostwng o gyfartaledd o 1.47 ym mhob ysgol yn gyffredinol yn 2002/03.

Diffiniwyd arbenigwyr AG fel y rhai a oedd wedi derbyn cyfran sylweddol o'u hyfforddiant ffurfiol yn benodol gysylltiedig ag AG yn ystod eu cyfnod ymarfer dysgu. Diffiniwyd yr anarbenigwyr fel yr athrawon eraill i gyd. Dim ond lleiafrif o'r athrawon a oedd yn ymwneud ag AG oedd yn cael eu hystyried gan y cydlynwyr fel 'arbenigwyr'; 1.01 ym mhob ysgol o gymharu â 5.56 o 'anarbenigwyr'. Mae hyn yn cymharu ag 1.0 o 'arbenigwyr' a 6.15 o 'anarbenigwyr' yn 2002/03. Ledled Cymru, dywedodd 36% o'r cydlynwyr AG nad oedd yr un o'r athrawon yn eu hysgol yn arbenigwr ar AG. Mewn perthynas â'r cydlynwyr AG eu hunain, roedd 48% yn eu hystyried eu hunain yn arbenigwyr AG. Roedd y ganran hon wedi cynyddu 3% ers 2002/03 ac mae'n amrywio o 59% yn y Gymru Fetropolitan, 47% yn y Cymoedd, 43% yn y Gogledd Gwledig a 39% yn y Berfeddwlad Wledig.

Hyfforddiant

Gofynnwyd i gydlynwyr AG pryd oeddent wedi derbyn unrhyw ddatblygiad proffesiynol mewn perthynas ag AG ddiwethaf. Roedd 40% wedi derbyn datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol, gostyngiad o 49% yn 2002/03. Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, roedd 26% wedi derbyn DPP a 29% cyn hyn. Nid oedd 5% wedi derbyn unrhyw DPP o gwbl, cynnydd o 1%. Gofynnwyd i'r cydlynwyr am eu barn ynghylch pa un ai fyddai'r staff yn gallu derbyn DPP er mwyn sicrhau bod AG yn cael ei chyflwyno'n effeithiol: roedd 65% yn cytuno'n gyffredinol a 14% yn anghytuno, gydag 20% heb fod yn

Tabl 1: Nifer y staff yn dysgu AG y Cwricwlwm Cenedlaethol

	Y Gymru Fetropolitan	Y Gogledd Gwledig	Y Berfeddwlad Wledig	Y Cymoedd	Ledled Cymru
Nifer y staff gwrywaidd ar gyfartaledd	1.65	1.06	1.05	1.46	1.33
Nifer y staff benywaidd ar gyfartaledd	5.76	2.72	3.40	4.50	4.25

Table 2: Canran y Cydlynwyr AG a ddywedodd bod y grwpiau a ganlyn yn ymwneud â chyflwyno gweithgareddau cwricwlaidd yn eu hysgol.

	% yn helpu o gwbl		% yn helpu'n achlysurol		% yn helpu'n rheolaidd	
	2002/03	2004/05	2002/03	2004/05	2002/03	2004/05
Swyddogion Datblygu Chwaraeon	72	68	52	51	20	17
Hyfforddwyr Clybiau	39	46	29	32	10	14
Rhieni / gwarcheidwaid	41	40	25	25	16	5
Athrawon ysgolion uwchradd	13	26	10	20	3	6
Staff eraill yr awdurdod lleol	24	24	18	19	6	5
Gwirfoddolwyr dros 18 oed	23	21	17	15	6	6
Gwirfoddolwyr 18 oed ac iau	14	20	12	14	2	6
Staff Cyrff Rheoli	13	11	10	7	3	4

cytuno nac yn anghytuno. Yn ychwanegol at y staff dysgu, roedd nifer o ysgolion yn defnyddio staff allanol i helpu gyda chyflwyno'r Cwricwlwm AG, fel a ddangosir yn Nhabl 2.

Fel gydag arolwg 2002/03, y swyddogion datblygu chwaraeon yw'r brif ffynhonnell o gefnogaeth. Mae'r gefnogaeth gan hyfforddwyr clybiau a rhieni / gwarcheidwaid wedi cynyddu. Mae cefnogaeth y gwirfoddolwyr dan 18 oed wedi cynyddu'n sylweddol ond cefnogaeth y gwirfoddolwyr sy'n oedolion wedi gostwng ryw ychydig. Mae'r gefnogaeth a roddir yn tueddu i fod yn gymorth achlysurol yn hytrach na rheolaidd.

Cyllid

Gofynnwyd i'r Cydlynwyr AG a oeddent yn teimlo bod digon o gefnogaeth ariannol ar gael ar gyfer AG yn eu hysgol. Roedd 41% yn cytuno bod digon o gefnogaeth ar gael, sef cynnydd o 1% ers 2002/03.

Fodd bynnag, roedd 39% yn anghytuno, cynnydd o 3%, a dywedodd 19% nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno gyda'r datganiad, gostyngiad o 1% ers arolwg 2002/03.

Mae Tabl 3 yn dangos barn y Cydlynwyr AG am y neilltuadau cyllidebol ar gyfer AG a pha un ai ydynt yn cynyddu neu'n gostwng. Roedd 57% o'r Cydlynwyr yn teimlo bod eu cyllideb 'rywbeth yn debyg' i 2002/03 ond eto roedd 34% yn meddwl bod y gyllideb wedi gostwng ers 2002/03 gyda dim ond 4% o'r Cydlynwyr yn datgan bod y gyllideb wedi cynyddu. Yn ddaearyddol, mae'r duedd yn debyg yn y pedwar rhanbarth.

Arian ychwanegol a godwyd ar gyfer gwariant ar AG

Roedd 40% o'r ysgolion wedi codi arian ychwanegol drwy gyfrwng gweithgareddau codi arian ar gyfer eu gwariant AG o gymharu â 36% yn 2002/03. Roedd hyn yn amrywio o 31% yn y Gogledd Gwledig i 45% yn y Gymru Fetropolitan. Cododd 41% o ysgolion y Cymoedd a 38% o ysgolion y Berfeddwlad Wledig arian ychwanegol. Mae'r canrannau hyn i gyd wedi cynyddu ers arolwg 2002/03.

***Tabl 3:** A yw'r gyllideb ar gyfer AG yn codi neu'n gostwng fel cyfran o gyllideb gyffredinol yr ysgol?*

	Y Gymru Fetropolitan	Y Gogledd Gwledig	Y Berfeddwlad Wledig	Y Cymoedd	Ledled Cymru
Yn cynyddu	3	3	4	6	4
Yn gostwng	32	31	40	33	34
Rhywbeth yn debyg	60	63	51	55	57

Tabl 4: *Canran yr ysgolion gyda'r cyfleusterau chwaraeon a restrir ar gael ar neu oddi ar y safle a gradd safon (mewn cromfachau) ar gyfer y cyfleusterau hynny, lle mae 4 = rhagorol, 3 = da, 2 = gweddol, 1 = gwael*

	2002/03		2004/05	
	Ar y safle	Oddi ar y safle	Ar y safle	Oddi ar y safle
Dan do				
Stiwdio ddawns	1 (1.6)	3 (2.6)	1 (1.8)	3 (3.3)
Campfa	14 (2.4)	10 (3.1)	8 (2.7)	10 (3.3)
Neuadd Ysgol	86 (2.3)	3 (2.5)	87 (2.3)	4 (2.9)
Neuadd Chwaraeon	5 (2.5)	19 (3.2)	2 (2.9)	21 (3.3)
Pwll Nofio	5 (2.9)	88 (3.1)	3 (2.9)	88 (3)
Cyfleusterau Newid	30 (2.3)	19 (2.7)	26 (2.3)	18 (2.9)
Awyr Agored				
Pitiau Athletau	6 (1.9)	10 (2.7)	3 (2.4)	6 (3)
Mannau Taflu ar gyfer Athletau	9 (2.4)	10 (2.5)	9 (2.4)	7 (3.1)
Trac Athletau (glaswellt)	36 (2.5)	15 (2.5)	38 (2.4)	13 (2.8)
Trac Athletau (synthetig)	1 (1)	9 (3.2)	0 (3)	8 (3.4)
Rhwydi Criced	1 (1.5)	2 (2.9)	0 (2)	4 (3.2)
Wicedi Criced (glaswellt)	22 (2.3)	12 (2.8)	7 (2.3)	6 (2.9)
Wicedi Criced (artiffisial)	-	-	7 (2.5)	3 (3)
Caeau pêl droed	58 (2.5)	24 (2.8)	53 (2.5)	21 (2.9)
Caeau hoci	7 (2.2)	6 (2.9)	7 (2.4)	9 (3.3)
Man Gemau Aml-Ddefnydd	19 (2.4)	6 (2.8)	17 (2.7)	5 (3.2)
Cyrtiau Pêl Rwyd	68 (2.5)	9 (3.1)	67 (2.5)	8 (3.1)
Caeau rygbi	30 (2.7)	21 (2.8)	32 (2.5)	16 (3)
Pwll nofio awyr agored	-	-	1 (0-heb ateb)	24 (3.1)
Cyrtiau Tenis	7 (2.3)	10 (3.1)	5 (2.5)	10 (3)
Cae artffisial	1 (2.3)	9 (3.4)	2 (3.4)	12 (3.5)
Chwaraele	-	-	89 (2.4)	2 (2.8)

Cyfleusterau

Mae Tabl 4 yn dangos y cyfleusterau sydd ar gael i ysgolion cynradd ar gyfer darparu AG y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Bu cynnydd yn y ddarpariaeth o draciau athletau glaswellt, caeau rygbi a chaeau artiffisial ar y safle ac mae'r ddarpariaeth o rwydi criced, caeau hoci a neuaddau chwaraeon oddi ar y safle wedi cynyddu hefyd. Fodd bynnag, bychan yw'r cynnydd bob tro o gymharu â'r gostyngiadau yn y cyfleusterau a ddarparerir. Y rhai sydd wedi dangos gostyngiad o bedwar pwynt canran neu fwy yw campfeydd ar y safle (gostyngiad pellach ers 2002/03), cyfleusterau newid, caeau pêl droed a phitiau athletau a chaeau rygbi oddi ar y safle. Er bod mannau gemau aml-ddefnydd wedi'u cynnwys am y tro cyntaf yn arolwg 2002/03, bu gostyngiad o 3% yn y ddarpariaeth ar ac oddi ar y safle. Mae chwaraeleoedd yn rhan o'r arolwg hwn am y tro cyntaf.

Yn rhanbarthol, ceir gwahaniaethau nodedig yn y ddarpariaeth o rai cyfleusterau ar y safle. Yn y Gymru Fetropolitan, mae gan 55% o'r ysgolion drac athletau glaswellt, mae hyn yn cymharu â 35% o'r ysgolion yn y Berfeddwlad Wledig, 30% yn y Gogledd Gwledig a 24% yn y Cymoedd; ceir gwahaniaeth rhanbarthol o fwy na 30%. Dangosir rhai o'r amrywiaethau rhanbarthol yn y cyfleusterau ar y safle yn Nhabl 5.

Tabl 5: Amrywiaeth rhanbarthol yn y canran o ysgolion gyda chyfleusterau ar y safle.

	Y Gymru Fetropolitan	Y Gogledd Gwledig	Y Berfeddwlad Wledig	Y Cymoedd
Neuadd Chwaraeon	1	3	3	1
Trac athletau (glaswellt)	55	30	35	24
Caeau Hoci	7	4	13	1
Caeau Rygbi	33	21	40	30

Graddio'r cyfleusterau

Er na welwyd llawer o newid yn y graddau a roddwyd i gyfleusterau unigol, mae'r newid wedi bod yn bositif. Mae'r cyfleusterau ar y safle'n cael eu hystyried yn is eu safon na'r rhai oddi ar y safle. Yn gyffredinol, mae'r cyfleusterau ar y safle'n cael eu hystyried fel rhai gweddol neu dda, ac eithrio'r caeau artiffisial a oedd yn cael eu graddio'n dda neu'n rhagorol. Er mai dim ond mewn dwy ysgol yr oedd traciau athletau synthetig ar gael, a rhwydi criced mewn dim ond un, roeddent yn cael eu graddio fel rhai da a gweddol, yn eu trefn. Yn gyffredinol, roedd y cyfleusterau oddi ar y safle'n cael eu graddio fel rhai da i ragorol.



Hefyd gofynnwyd i'r Cydlynwyr AG am eu barn am y cyfleusterau a oedd ar gael yn gyffredinol. Ledled Cymru, teimlwyd bod 4% yn rhagorol; 42% yn dda; 42% yn weddol a 12% yn wael. Mae'r ffigyrau hyn yn debyg i'r arolwg blaenorol. Cafwyd rhai amrywiaethau rhanbarthol – roedd 51% o'r Cydlynwyr AG yn y Cymoedd yn teimlo bod ansawdd y cyfleusterau'n weddol o gymharu â 47% yn y Gogledd Gwledig, 38% yn y Berfeddwlad Wledig a 36% yn y Gymru Fetropolitan. Roedd y Cydlynwyr AG yn y Gymru Fetropolitan a'r Cymoedd yn teimlo mai eu cyfleusterau hwy oedd y rhai gwaelaf, gyda 14% yn y ddwy ardal yn nodi eu bod yn wael. Roedd 11% yn y Berfeddwlad Wledig yn teimlo bod eu cyfleusterau'n wael a 6% yn y Gogledd Gwledig. Fodd bynnag, roedd 5% o Gydlynwyr AG y Cymoedd yn teimlo bod eu cyfleusterau'n rhagorol o gymharu â 4% yn y Gymru Fetropolitan, 3% yn y Gogledd Gwledig a 3% yn y Berfeddwlad Wledig. Gofynnwyd i'r Cydlynwyr hefyd raddio'r offer a oedd ar gael yn gyffredinol. Roedd 10% yn teimlo bod yr offer yn rhagorol; 55% yn dda; 30% yn weddol a 3% yn wael.

AG Y CWRICWLWM CENEDLAETHOL: CYFLWYNO

Amser

Yn arolwg 2000/01, roedd yr ysgolion yn darparu cyfartaledd o 86 munud o amser AG yr wythnos yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer y grwpiau blwyddyn i gyd. Yn arolwg 2002/03, cynyddodd yr amser hwn gyda chyfartaledd o 91 munud yr wythnos ym mhob grŵp blwyddyn. Mae arolwg 2004/05 yn dangos bod cyfartaledd o 93 munud yr wythnos yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd. Mae hwn yn gynnydd positif ond eto dim ond 78% o'r amser targed o 120 munud yr wythnos o AG ar gyfer y disgyblion i gyd mae'r lefel hon yn ei gyrraedd.

Mae'r amser sydd ar gael yn cynyddu ryw ychydig wrth i ddisgyblion symud i fyny drwy'r blynyddoedd ysgol (Ffigwr 1). Mae'r darganfyddiadau hyn yn groes i ddarganfyddiadau'r arolygon ar ysgolion uwchradd, lle ceir gostyngiad sylweddol yn yr amser sydd ar gael ar gyfer AG wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn.

Gwelwyd rhai amrywiaethau rhanbarthol yn yr amser a oedd ar gael yn y blynyddoedd ysgol, gyda 96 munud ar gyfartaledd yn cael ei roi yn y Gymru Fetropolitan, 94 munud yn y Cymoedd, 92 munud yn y Gogledd Gwledig a 91 munud yn y Berfeddwlad Wledig. Mae Tabl 6 yn dangos y gwahaniaethau rhanbarthol yn fanylach.

***Ffigwr 1:** Nifer y munudau yr wythnos ar gyfartaledd ar gyfer AG y Cwricwlwm fesul blwyddyn ysgol*

Y Gweithgareddau a Gynigir fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Mae Tabl 7 yn dangos y gweithgareddau sydd ar gael ar / oddi ar y safle. Yn gyffredinol, cynigir y gweithgareddau ar sail rhyw cymysg mewn ysgolion cynradd. Yr amrywiaethau mwyaf arwyddocaol, gyda'r gwahaniaethau'n fwy na 5%, oedd pêl fâs / rownderi, dawns, pêl rwyd a gweithgareddau antur awyr agored, gyda mwy o ysgolion cynradd yn cynnig y gweithgareddau olaf i enethod. Yn yr arolwg diwethaf, roedd y gwahaniaeth rhwng yr ysgolion a oedd yn cynnig rygbi i enethod 6% yn llai na'r rhai a oedd yn cynnig y gamp i fechgyn. Mae'r arolwg hwn yn dangos bod 2% yn fwy o ysgolion yn cynnig rygbi i enethod. Yn gyffredinol, mae ychydig mwy o weithgareddau'n cael eu cynnig i enethod (11.21) ledled Cymru o gymharu â'r bechgyn (10.84). Mae cyfartaledd o 11.49 o weithgareddau ar gael yn gyffredinol mewn ysgolion cynradd, cynnydd ar 2002/03 a oedd yn dangos cyfartaledd o 11.03.

Ymarfer Cysylltiedig ag Iechyd

Roedd yr arolwg hwn yn gofyn i Gydlynwyr AG sut oeddent yn dysgu gofynion ymarfer cysylltiedig ag iechyd y Cwricwlwm Cenedlaethol i bob grŵp blwyddyn. Mae ychydig dros hanner (54%) yr ysgolion yn dysgu ymarfer cysylltiedig ag iechyd fel rhan dreiddiol o bob maes gweithgarwch, ond mae hyn wedi gostwng 2% ers 2002/03. Dilynir hyn gan gyfartaledd o 46% o ysgolion yn ei ddysgu fel rhan o addysg bersonol a chymdeithasol (ABaCh). Mae 5% o ysgolion yn dysgu ymarfer cysylltiedig ag iechyd fel model penodol o waith. Dangosir yr amrywiaethau rhanbarthol o ran sut mae ymarfer



Tabl 6: Canran yr ysgolion a'r amser a wnaed ar gael yr wythnos ar gyfer dysgu AG y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 2.

	Y Gymru Fetropolitan	Y Gogledd Gwledig	Y Berfeddwlad Wledig	Y Cymoedd	Ledled Cymru
30-59 munud	2	4	7	5	4
60-75 munud	21	22	22	25	22
76-90 munud	30	31	29	26	29
91-105 munud	12	10	13	8	11
106-120 munud	29	29	20	28	26
121-135 munud	1	1	3	5	2
136-150 munud	2	-	2	-	1

Tabl 7: Canran gyffredinol yr ysgolion gyda'r gweithgareddau cwricwlaidd a restrir ar gael ar / oddi ar y safle yn ystod y flwyddyn academaidd.

	2002/03			2004/05		
	Genethod	Bechgyn	Cyfartaledd	Genethod	Bechgyn	Cyfartaledd
Athletau	92	91	92	94	93	95
Badminton	5	5	5	6	5	6
Pêl fâs / rownderi	86	80	86	89	84	90
Pêl fasged	23	22	24	21	22	23
Bowlio	12	12	12	12	11	12
Beicio	-	-	-	1	1	1
Criced	75	76	79	75	76	80
Traws gwlad	42	40	42	52	49	52
Dawns	92	86	92	93	88	94
Pêl droed	89	93	94	89	92	94
Golff	10	9	10	13	13	14
Gymnasteg	91	90	92	95	94	96
Hoci / hoci dan do	66	61	67	69	66	71
Lacrosse	6	6	6	2	2	2
Pêl rwyd	91	70	91	91	75	92
Gweithgareddau antur awyr agored	54	52	55	63	56	64
Rygbi	78	84	87	82	86	88
Nofio	99	94	99	99	96	99
Tenis bwrdd	5	3	5	4	4	5
Tenis	59	57	59	64	64	66
Nifer y gweithgareddau a gynigiwyd ar gyfartaledd	10.77	10.36	11.03	11.21	10.84	11.49

Ffigwr 2: Dysgu Ymarfer Cysylltiedig ag Iechyd



cysylltiedig ag iechyd yn cael ei ddysgu yn Ffigwr 2. Yn rhanbarthol, mae 61% o ysgolion y Cymoedd yn dysgu Ymarfer Cysylltiedig ag Iechyd fel rhan o bob maes gweithgarwch, o gymharu â 43% yn y Gogledd Gwledig. Mae 50% o ysgolion yn y Gymru Fetropolitan yn dysgu Ymarfer Cysylltiedig ag Iechyd fel rhan o ABaCh, o gymharu â 40% o ysgolion yn y Cymoedd. Mae 5% o ysgolion yn y Berfeddwlad Wledig yn dysgu ymarfer cysylltiedig ag iechyd fel model penodol.

CHWARAEON ALLGYRSIOL

Staff

Ledled Cymru, mae 93% o ysgolion yn cynnig gweithgareddau AG allgyrsiol i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2. Gwelwyd cynnydd o 3% ers yr arolwg diwethaf, lle roedd 90% o'r ysgolion yn cynnig AG allgyrsiol. Mae pob ysgol yn yr ardaloedd rhanbarthol wedi cynyddu eu darpariaeth o AG allgyrsiol. Yn yr arolwg blaenorol, roedd 77% o ysgolion y Gogledd Gwledig yn cynnig AG allgyrsiol, ac mae hyn wedi cynyddu i 81%. Mae 86% yn y Berfeddwlad Wledig wedi cynyddu i 92%, 96% yn y Cymoedd wedi cynyddu 3% (99%) a nifer yr ysgolion yn cynnig AG allgyrsiol yn y Gymru Fetropolitan wedi aros yr un fath, yn 98%.

Yn gyffredinol, roedd cyfartaledd o 1.10 o athrawon gwrywaidd a 1.93 o athrawon benywaidd ym mhob ysgol yn ymwneud â dysgu AG allgyrsiol. Mae'r ffigyrau hyn wedi gostwng ryw ychydig ers 2002/03, ond er bod llai o athrawon gwrywaidd a benywaidd yn dysgu AG allgyrsiol, mae'r ysgolion yn cynnig mwy. Mae Tabl 8 yn dangos y manylion yn y gwahanol ranbarthau.

Mae staff allanol wedi chwarae rhan yn y gwaith o gyflwyno gweithgareddau allgyrsiol hefyd (Tabl 9). Yn galonogol, mae'r holl grwpiau sydd wedi helpu i gyflwyno AG allgyrsiol wedi cynyddu. Fodd bynnag, dim ond dau grŵp sy'n helpu'n achlysurol sydd wedi cynyddu; gwirfoddolwyr 18 oed ac iau (14%) ac athrawon ysgolion uwchradd (9%). Yn gyffredinol, y grwpiau sydd wedi cynyddu wrth helpu o gwbl yw cydlynwyr Campau'r Ddraig (58% yn 2002/03 i 60%), hyfforddwyr clybiau (31% wedi cynyddu i 34%), gwirfoddolwyr 18 oed ac iau (14% wedi cynyddu i 20%) ac athrawon ysgolion uwchradd (6% wedi cynyddu i 10%).

Amser

Mae Ffigwr 3 yn dangos nifer y munudau yr wythnos ar gyfartaledd a roddir i AG allgyrsiol ledled Cymru ac yn y pedwar rhanbarth. Mae'r data'n dangos canlyniadau

Tabl 8: Nifer y staff ar gyfartaledd yn dysgu AG allgyrsiol

	Y Gymru Fetropolitan	Y Gogledd Gwledig	Y Berfeddwlad Wledig	Y Cymoedd	Ledled Cymru
Nifer yr athrawon gwrywaidd ar gyfartaledd	1.33	0.93	0.94	1.11	1.10
Nifer yr athrawon benywaidd ar gyfartaledd	2.31	1.41	1.99	1.91	1.93

Tabl 9: Canran y Cydlynwyr AG a ddywedodd bod y grwpiau a ganlyn yn ymwneud â chyflwyno gweithgareddau allgyrsiol yn eu hysgol.

	% Helpu o gwbl		% Helpu'n achlysurol		% Helpu'n rheolaidd	
	2002/03	2004/05	2002/03	2004/05	2002/03	2004/05
Swyddogion Datblygu Chwaraeon	54	48	45	37	9	11
Cydlynwyr Campau'r Ddraig	58	60	45	45	13	15
Rhieni / gwarcheidwaid	46	46	27	25	19	21
Hyfforddwyr Clybiau	31	34	22	21	9	13
Gwirfoddolwyr dros 18 oed	23	21	15	11	8	10
Gwirfoddolwyr 18 oed ac iau	14	20	11	14	3	6
Staff cyrff rheoli	13	10	9	6	4	4
Staff eraill yr awdurdod lleol	7	6	6	5	1	1
Athrawon ysgolion uwchradd	6	10	5	9	1	1

Ffigwr 3: *Nifer y munudau yr wythnos ar gyfartaledd a roddir i AG allgyrsiol fesul rhanbarth*



positif o ran faint o amser yr wythnos a roddir i chwaraeon allgyrsiol gyda chynnydd ers yr arolwg blaenorol. Mae cyfartaledd o 218 o funudau o amser y staff yn cael ei roi yn y gwahanol grwpiau blwyddyn o gymharu â 204 o funudau yn 2002/03 a 170 munud yn 2000/01. Mae darparu Campau'r Ddraig mewn ysgolion cynradd ledled Cymru (a drafodir yn fanylach yn yr adran sy'n dilyn) wedi bod o gymorth i sicrhau'r cynnydd hwn. Darperir mwyafrif yr amser allgyrsiol ar ôl ysgol ac ar benwythnosau, yn hytrach nag yn ystod amser cinio. Yn rhanbarthol, darperir yr amser allgyrsiol mwyaf gan y Gymru Fetropolitan (261 munud) a'r Cymoedd (222 munud).

Gofynnwyd i'r Cydlynwyr AG am eu barn am pa un ai fyddai'r ysgol yn 'hoffi cynnig mwy o weithgareddau allgyrsiol, ond nad oes ganddi ddigon o staff wedi derbyn hyfforddiant addas'. Roedd mwy na hanner (52%) y cydlynwyr yn cytuno bod hyn yn wir, roedd 21% yn anghytuno ac nid oedd 25% yn cytuno nac yn anghytuno.

Campau'r Ddraig a gweithgarwch allgyrsiol

Mae Campau'r Ddraig ar gael mewn saith camp: rygbi, pêl droed, tenis, athletau, hoci, pêl rwyd a chriced. Dim ond 1% o'r ysgolion oedd heb glywed am gynllun Campau'r Ddraig. Roedd 86% o'r holl ysgolion a ymatebodd yn rhedeg cynllun Campau'r Ddraig, o gymharu â 73% yn 2002/03. Roedd hyn yn amrywio ryw ychydig fesul rhanbarth gyda 78% yn y Gymru Fetropolitan yn rhedeg y cynllun, 93% yn y Gogledd Gwledig, 88% yn y Berfeddwlad Wledig a 91% yn y Cymoedd. Yn gyffredinol, dim ond 3% o ysgolion yn yr arolwg hwn oedd ddim yn rhedeg cynllun Campau'r Ddraig ac nad oedd yn bwriadu, i lawr o 8% nad oedd yn bwriadu cymryd rhan yng Nghampau'r Ddraig yn 2002/03. Yn rhanbarthol, nid oedd gan 7% o ysgolion yn y Gymru Fetropolitan unrhyw gynlluniau ar gyfer cynllun Campau'r Ddraig, 4% yn y Gogledd Gwledig a 2% yn y Berfeddwlad Wledig. Roedd pob ysgol yn y Cymoedd naill ai'n rhedeg cynllun ar hyn o bryd neu'n bwriadu rhedeg cynllun Campau'r Ddraig.

Gofynnwyd i'r Cydlynwyr AG sut roedd Campau'r Ddraig wedi effeithio ar weithgarwch allgyrsiol yn eu hysgolion; pa un ai oedd Campau'r Ddraig wedi cymryd lle'r ddarpariaeth a oedd yn bodoli eisoes cyn lansio'r fenter yn 2000, pa un ai oedd Campau'r Ddraig yn cael ei ddefnyddio fel cyfrwng i ddarparu gweithgarwch ychwanegol ac a oedd diffyg gweithgarwch allgyrsiol o gwbl cynt. Mae Ffigwr 4 yn dangos y canlyniadau.

Roedd 18% wedi dynodi bod Campau'r Ddraig wedi cymryd lle eu darpariaeth allgyrsiol a oedd yn bodoli cynt ond dywedodd 71% bod Campau'r Ddraig wedi creu gweithgarwch ychwanegol. Mae hyn yn gwbl groes i ddarganfyddiadau'r arolwg blaenorol, lle roedd 75% wedi dweud bod Campau'r Ddraig wedi cymryd lle gweithgarwch allgyrsiol arall a 18% wedi dweud bod Campau'r Ddraig wedi cael ei gynnig yn ychwanegol at eu gweithgarwch cyfredol. Mae'n bur debyg bod y gefnogaeth ychwanegol a gynigir i ysgolion cynradd, i ganolbwyntio ar ddarparu mwy o weithgareddau AG allgyrsiol, wedi dylanwadu ar y newid hwn.

Ffigwr 4: *Sut mae Campau'r Ddraig wedi effeithio ar weithgarwch allgyrsiol (GA) yn eich ysgol?*



Er nad yw Campau'r Ddraig yn cynnig gweithgareddau sy'n newydd i ysgolion, mae'n cael effaith sylweddol ar ddwysedd y gweithgarwch a wneir yn y saith camp a restrir isod:

Athletau – cynnydd o 12 pwynt canran yn y ddarpariaeth ar gyfer bechgyn a chynnydd o 15 pwynt canran ar gyfer genethod.

Criced – cynnydd o 4 pwynt canran yn y ddarpariaeth ar gyfer bechgyn a chynnydd o 11 pwynt canran ar gyfer genethod

Pêl Droed – cynnydd o 13 pwynt canran ar gyfer bechgyn a 23 pwynt canran ar gyfer genethod.

Hoci – cynnydd o 28 pwynt canran ar gyfer bechgyn a 29 pwynt canran ar gyfer y genethod

Pêl Rwyd – cynnydd o 23 pwynt canran ar gyfer bechgyn ac 8 pwynt canran ar gyfer genethod.

Rygbi – cynnydd o 11 pwynt canran ar gyfer bechgyn a 23 pwynt canran ar gyfer genethod.

Tenis – cynnydd o 15 pwynt canran ar gyfer bechgyn a 16 pwynt canran ar gyfer genethod.

Nid oes modd priodoli'r cynnydd yn y ddarpariaeth o weithgareddau amrywiol i Gampau'r Ddraig yn unig; mae dawns wedi cynyddu 13% i fechgyn ac 16% i enethod ers 2000/01 hefyd, gymnasteg 8% ar gyfer bechgyn ac 11% ar gyfer genethod a nofio 7% ar gyfer bechgyn ac 8% ar gyfer genethod. Mae'n ymddangos bod gwaith y cynllun AGChY wedi dylanwadu ar y cynnydd hwn, sy'n canolbwyntio ar hyn o bryd ar y gweithgareddau hyn (dawns a gymnasteg) a'r Fenter Nofio Am Ddim a lansiwyd yn 2004. Ceir manylion pellach am ganran yr ysgolion yn cynnig AG allgyrsiol yn Nhabl 10.

***Tabl 10:** Canran yr ysgolion sy'n darparu'r gweithgareddau allgyrsiol a ganlyn a restrir ar gyfer bechgyn a genethod. Mae'r ffigyrau mewn cromfachau'n cynrychioli canran gyffredinol yr ysgolion yn cynnig gweithgareddau'n rheolaidd, hy yn wythnosol yn ystod y tymor perthnasol.*

	Bechgyn			Genethod		
	2000/01	2002/03	2004/05	2000/01	2002/03	2004/05
Athletau	49 (30)	60 (41)	61 (41)	48 (29)	61 (43)	63 (42)
Badminton	3 (1)	4 (3)	2 (2)	3 (1)	4 (3)	4 (2)
Pêl fâs / rownderi	33 (20)	35 (21)	38 (24)	39 (23)	40 (27)	42 (27)
Pêl fasged	8 (5)	12 (7)	13 (8)	9 (6)	11 (7)	13 (7)
Bowlio	-	7 (4)	6 (3)	-	7 (3)	6 (3)
Criced	52 (35)	58 (37)	56 (37)	41 (24)	53 (34)	52 (34)
Traws gwlad	30 (16)	30 (16)	33 (19)	27 (14)	29 (16)	35 (20)
Beicio	14 (6)	1 (1)	1 (1)	13 (4)	1 (1)	1 (1)
Dawns	26 (16)	35 (20)	39 (24)	29 (17)	39 (23)	45 (27)
Pêl droed	76 (61)	88 (74)	89 (72)	61 (43)	80 (66)	84 (66)
Golff	-	6 (2)	8 (3)	-	5 (2)	8 (3)
Gymnasteg	27 (17)	34 (20)	35 (22)	27 (16)	33 (24)	38 (25)
Hoci	17 (10)	34 (19)	45 (29)	19 (11)	37 (22)	48 (30)
Lacrosse	4 (4)	4 (3)	3 (2)	4 (2)	4 (2)	3 (1)
Pêl rwyd	41 (32)	55 (44)	64 (48)	76 (60)	84 (71)	84 (68)
Gweithgareddau antur awyr agored	18 (4)	21 (7)	25 (6)	15 (6)	22 (7)	26 (6)
Rygbi	64 (47)	75 (59)	75 (57)	43 (29)	60 (44)	66 (46)
Nofio	26 (16)	30 (21)	33 (21)	27 (18)	32 (22)	35 (24)
Tenis bwrdd	-	3 (2)	6 (3)	-	3 (2)	5 (3)
Tenis	21 (12)	32 (18)	36 (19)	20 (11)	32 (19)	36 (22)
Nifer y gweithgareddau a gynigir ar gyfartaledd	-	6.28 (4.21)	6.74(4.42)	-	6.42 (4.41)	7.00 (4.62)

Tabl 11: Cynrychiolaeth timau ysgol: canran yr ysgolion gyda thimau.

	2002/03		2004/05	
	Genethod	Bechgyn	Genethod	Bechgyn
Athletau	20	20	18	17
Pêl fâs / rownderi	15	3	10	3
Criced	7	14	7	11
Traws gwlad	14	14	17	16
Pêl droed	32	52	41	55
Hoci	5	1	5	3
Gymnasteg	7	5	7	5
Pêl rwyd	55	2	48	2
Rygbi	6	33	7	33
Nofio	17	15	14	13
Dawns	-	-	5	1

Timau Ysgol

Hefyd, gofynnwyd i'r Cydlynwyr AG am gynrychiolaeth timau ysgol. Dangosir canran yr ysgolion gyda thimau yn Nhabl 11. Bu cymysgedd o gynnydd a gostyngiad yn y timau ysgol ers 2002/03. Mae'r gynrychiolaeth mewn athletau a rygbi'n parhau i ddirywio ar gyfer timau'r genethod a'r bechgyn. Ond mae'r gynrychiolaeth mewn traws gwlad a phêl droed wedi cynyddu ers 2002/03; 3% o gynnydd ar gyfer y bechgyn a 2% o gynnydd ar gyfer y genethod mewn traws gwlad a 9% o gynnydd ar gyfer y bechgyn a 3% ar gyfer y genethod mewn pêl droed. Am y tro cyntaf, mae 5% o ysgolion yn cael eu cynrychioli gan dîm dawns i enethod, ac mae gan 1% dîm dawns i fechgyn.

SYLWADAU I GLOI

Mae canlyniadau'r arolwg hwn wedi dangos rhai darganfyddiadau positif, fel y cynnydd yn yr amser sydd ar gael ar gyfer AG y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r cynnydd a welwyd yn yr amser sydd ar gael yn awr ar gyfer AG allgyrsiol. Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau a awgrymir o leiafswm o ddwy awr yr wythnos ar gyfer AG y Cwricwlwm Cenedlaethol yn cael eu cyrraedd eto, ac mae hynny'n siomedig o ystyried y cyfraniad positif y gall AG ei wneud at gynyddu lefelau gweithgarwch ledled y DG a'r cynnydd sydd wedi'i gofnodi am lefel y gordewdra ymhlith plant.

Mae'r arolwg yn awgrymu bod Campau'r Ddraig wedi gwneud cyfraniad pwysig iawn ac wedi dylanwadu ar yr amser sydd ar gael a nifer yr ysgolion yn cynnig gweithgareddau amrywiol. Gyda Golff yn cael ei chyflwyno fel un o Gampau'r Ddraig yn awr, gobeithir y bydd lle i sicrhau mwy o gyfranogiad yn y cynllun ac, o ganlyniad, dylanwadu ymhellach ar y ddarpariaeth allgyrsiol sydd ar gael.

Roedd y cynllun AG a Chwaraeon Ysgol yn gwbl weithredol adeg cynnal yr arolwg hwn ac mae'n ymddangos fel pe bai'n gwneud cyfraniad at y ddarpariaeth hefyd.

CYDNABYDDIAETH

Dymuna CChC ddiolch i'r Cydlynwyr AG ledled Cymru sydd wedi rhoi o'u hamser ac wedi mynd i drafferth i ddarparu'r wybodaeth yr oedd ei hangen ar gyfer yr arolwg hwn a'r arolygon blaenorol. Hefyd, dymuna CChC ddiolch i Beaufort Research Cyfyngedig am ei arbenigedd wrth gynllunio a rheoli'r arolwg, ac i'r Grŵp Ymgynghorol ar gyfer AG a Chwaraeon Ysgol ac Estyn am eu cyfraniad at yr arolwg.